Croeso i GCaD Cymru

www.gcad-cymru.org.uk

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae GCaD Cymru wedi cydweithio gyda nifer fawr o Ymgynghorwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru i greu cyfres o adnoddau symbylgar a deniadol.
Mae'r adnoddau yma yn cyd-fynd ag ethos y Cyfnod Sylfaen gan gynnig profiadau o ddysgu profiadol drwy gefnogi'r dull o gynllunio sydd yn sicrhau cydbwysedd rhwng y dysgu a'r addysgu gan roi ystyriaeth i dasgau â ffocws, cyfoethogi'r ddarpariaeth a'r ddarpariaeth barhaus. Cysylltwch gyda ni er mwyn trefnu i Swyddog Datblygu Maes ddangos yr adnoddau newydd, rhad ac am ddim i chi.
Eich Swyddog Datblygu Maes yw Jane Altham-Watkins ac os hoffech drefnu ymweliad yna anfonwch e-bost at – jane.altham-watkins@gcad-cymru.org.uk

Ydych chi wedi gweld?

Ein Byd Gwyrdd – gwaith thematig



Mae'r uned yma yn darparu gweithgareddau gwahaniaethol sy'n ymdrin â'r saith maes dysgu drwy'r thema "Ein Byd Gwyrdd". Themau eraill sydd ar gael – Y Tymhorau, Ti a Fi a Chartrefi.

Datblygu'r Gymraeg – gwaith thematig

Cyfres o weithgareddau rhyngweithiol sydd yn seiliedig ar gân ac sy'n cyflwyno geirfa i'r rhai hynny sydd yn dechrau dysgu Cymraeg. Mae'r themâu yn cynnwys Dwr, Teithio, Tywod, Y Tywydd, Tedi ac Ar y Fferm.

Datblygu'r Gymraeg – Yr Wyddor

Mae yno gymeriad i bob llythyren, stori y gellir ei darllen a gwrando arni, cyfres o animeiddiadau yn gefndir i'r stori, wal eirfa y gellir ei defnyddio i wrando ar eiriau gwahanol a chân syml unsain gyda cyfeiliant.

Datblygiad Mathemategol - Datrys Problemau

Deuddeg gweithgaredd datrys problemau rhyngweithiol yn seiliedig ar gŵn bach y gellir eu defnyddio i greu dyddlyfr ar gyfer pontio rhwng y Cyfnod Sylfaen a CA2.

Addysg Grefyddol - Dathliadau

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys cân a fersiwn electronig o stori Dewi Sant, chwiloteiriau, gweithgareddau gosod mewn trefn a chyfateb, llyfr gwybodaeth, gêmau amlddewis, creu lluniau, gêm parau a jig-sos.

Datblygiad Creadigol – ar gael yn fuan

Cyfres o adnoddau celf yn astudio pedwar arlunydd Cymreig. Bydd yr unedau yn cynnwys fideo, elfennau rhyngweithiol a gwaith ar gyfer y dosbarth. Bydd yr uned gyntaf yn canolbwyntio ar waith Cefyn Burgess.